# Gofal a Thrwsio ym Mhowys
# Care & Repair in Powys

**August / Awst 2026**

Our work is funded by /
Ariennir ein gwaith gan

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Powys

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

## SUMMER NEWSLETTER
## CYLCHLYTHYR YR HAF

**Care & Repair helps older and disabled people in Powys to live independently in warm, safe and accessible homes.**

**Mae Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn ac anabl i fyw'n annibynnol mewn cartrefi cynnes, diogel a chyfleus.**

# A summer of fundraising...

# Gwneud gwahaniaeth yr haf hwn...

Our team have been busy raising funds for a variety of good causes, and there is more in the pipeline!

Mae ein tîm wedi bod yn brysur yn codi arian ar gyfer amrywiaeth o achosion da, ac mae mwy ar y gweill!

Tel: 01686 620760 Email: enquiries@crpowys.co.uk Website: www.crpowys.co.uk

August / Awst 2026

# IN THE SPOTLIGHT / YN Y CHWYDDWYDR



**Dementia Matters in Powys**

During Dementia Action week, Care & Repair colleagues organised a Cake Stall which was enjoyed by everyone working in the Tŷ Canol offices. A total of £138.68 was raised and donated to Dementia Matters in Powys.

**Materion Dementia ym Mhowys**

Yn ystod Wythnos Gweithredu ar Ddementia, trefnodd cyd-weithwyr Care & Repair stondin gacennau a oedd yn boblogaidd iawn ymhlith staff swyddfeydd Tŷ Canol. Codwyd cyfanswm o £138.68, ac fe'i rhoddwyd i Materion Dementia (Dementia Matters) ym Mhowys.

**World Cup Sweepstake!**

Football fever gripped everyone for a few weeks. The sweepstake raised £165 for the Care & Repair Healthy Homes Appeal.



**Swîp Cwpan y Byd!**

Am ychydig wythnosau, roedd pawb yn frwdfrydig iawn dros bêl-droed. Cododd y gystadleuaeth £165 ar gyfer Apêl Cartrefi Iach Care & Repair.




**A sweepstake with a difference....**

A Care & Repair colleague was the topic of an alternative sweepstake - everyone had fun guessing possible dates, weights and the gender of an imminent arrival. The result - a beautiful baby boy and £35 raised for the Care & Repair Cymru Healthy Homes Appeal.

**Tro gwahanol ar swîp arferol...**

Cyd-weithiwr Care & Repair oedd testun swîp amgen, ac fe gafodd pawb hwyl yn dyfalu dyddiad geni, pwysau a rhywedd y babi oedd ar fin cyrraedd. Y canlyniad – bachgen hardd, a £35 wedi'i godi ar gyfer Apêl Cartrefi Iach Care & Repair.

**Wales Air Ambulance**

Emma Cliff, our Service Delivery Manager, will be participating in the Cardiff half marathon in October, alongside other colleagues from the Barcud Group. Wales Air Ambulance is the group's chosen charity, with a target to raise £5,000

If you would like to contribute, please click

https://cardiffhalf26.enthuse.com/pf/emma-cliff

**Ambiwlans Awyr Cymru**



Bydd Emma Cliff, ein Rheolwr Darparu Gwasanaethau, yn cymryd rhan yn hanner marathon Caerdydd ym mis Hydref, ochr yn ochr â chyd-weithwyr eraill Grŵp Barcud. Ambiwlans Awyr Cymru yw'r elusen y mae'r grŵp wedi'i dewis eleni, gyda tharged o godi £5,000.

Os hoffech gyfrannu, cliciwch yma

https://cardiffhalf26.enthuse.com/pf/emma-cliff

# Powys Client Support Fund
# Cronfa Cefnogi Cleientiaid Powys

Many of our clients and their families donate to the Care & Repair in Powys Client Support Fund. This fund is used to support clients who cannot afford essential repairs.

Mae llawer o'n cleientiaid a'u teuluoedd yn cyfrannu at y Gronfa Cefnogi Cleientiaid Care & Repair ym Mhowys.Defnyddir y gronfa hon i gefnogi cleientiaid sydd ddim yn gallu fforddio gwaith trwsio hanfodol.

## Cancer and the Cold


Mrs I has inoperable cancer and heart failure. This severely affects her mobility, and feeling cold makes everything so much worse. Her boiler failed and could not be repaired. She could not afford a replacement. Our Caseworker applied to a variety of benevolent funders to raise the £3,600 needed to get a new boiler. This included the Powys Client Support Fund, as well as three other funders.

***"The relief and lack of worry knowing that I can turn the heating on and it won't go bust! Especially with the winter coming. I am very, very grateful. The chaps were brilliant and will be coming back to service it next year. Thank you so much."***

## Canser a bod yn oer

Mae Mrs I yn dioddef o ganser anllawdriniadwy ac o fethiant y galon. Mae hyn yn effeithio'n ddifrifol ar ei symudedd, ac mae bod yn oer yn gwaethygu popeth yn sylweddol. Methodd ei boeler ac ni fu modd ei drwsio. Doedd hi ddim yn gallu fforddio boeler newydd. Fe wnaeth ein Gweithiwr Achos gais i amrywiaeth o gyllidwyr elusennol i godi'r £3,600 oedd ei angen i gael boeler newydd. Roedd hyn yn cynnwys Cronfa Cefnogi Cleientiaid Powys, yn ogystal â thri chyllidwr arall.

***"Mae gen i'r tawelwch meddwl o wybod y gallaf droi'r gwres ymlaen heb boeni y bydd yn torri! Yn enwedig gyda'r gaeaf ar ei ffordd. Rwy'n ddiolchgar iawn, iawn. Roedd y bois yn wych a byddan nhw'n dod yn ôl i wasanaethu'r boeler y flwyddyn nesaf. Diolch yn fawr iawn."***





01686 620760 enquiries@crpowys.co.uk

# A Leaky Roof

Mrs M is living with dementia. She is cared for at home by her daughter who lives with her. This is where she feels safe and is her happiest. The roof was in need of repair - the leaks had caused damage to ceilings, and mould was an issue. With limited funds available, they did not know what to do or who would do the work. Our Caseworker sourced quotes from the preferred contractor list. Mrs M was able to contribute a proportion of the cost, and benevolent funding was raised for the remaining amount, including a contribution from the Powys Client Support Fund.

# To sy'n gollwng

Mae Mrs M yn byw gyda dementia. Mae ei merch, sy'n byw gyda hi, yn gofalu amdani gartref. Dyma lle mae hi'n teimlo'n ddiogel ac ar ei hapusaf. Roedd angen trwsio'r to – roedd y gollyngiadau wedi achosi difrod i'r nenfydau, ac roedd llwydni yn broblem. Gydag arian yn brin, nid oedden nhw'n gwybod beth i'w wneud na phwy fyddai'n gwneud y gwaith. Gofynnodd ein Gweithiwr Achos am ddyfynbrisiau gan gontractwyr ar y rhestr gontractwyr ddethol. Llwyddodd Mrs M i gyfrannu cyfran o'r gost, a chodwyd cyllid elusennol i dalu'r swm oedd yn weddill, gan gynnwys cyfraniad gan Gronfa Cefnogi Cleientiaid Powys.







***The client was "extremely grateful for the support provided by Care and Repair" and feels "happy to know that the roof is now water tight and free from leaks."***

***Roedd y cleient yn "ddiolchgar iawn am y cymorth a ddarparwyd gan Care & Repair" ac yn teimlo'n "hapus nad yw'r to bellach yn gollwng a bod y broblem wedi'i datrys."***

# OUR SERVICES

**Our home visiting service is FREE of charge and tailored to your individual needs.**

Care & Repair helps older homeowners and private tenants to live independently in safe, warm, and accessible homes.
The service is for people who live in Wales, are over the age of 60 and who own their own home or privately rent.

How we can help you:

- Undertake a free Healthy Homes Check
- Advise on options to repair, maintain or adapt your home
- Help to find sources of funding for any work that needs doing
- Advise and help to apply for the benefits you are entitled to
- Help you find a reliable, local contractor or builder
- Refer you on to other local services if needed
- We will even try and find funding for you if you need repairs or work to improve the energy efficiency or warmth of your home.

### Falls Prevention Service

To assess and advise on the prevention of slips, trips and falls in the home.

### Managing Better

Managing Better is a free home visiting service offering advice and practical help for people over the age of 50. It is for those who have sight or hearing loss, for Deaf people, people living with dementia and people who have survived a stroke.

### Mamwlad

It is a service to help people over 50 in the farming community - whether a farmer, farm worker or retired from farming.

# EIN GWASANAETHAU

**Mae ein gwasanaeth ymweld â chartrefi yn RHAD AC AM DDIM a chaiff ei deilwra ar gyfer eich anghenion unigol.**

Mae Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn sy'n berchnogion tai neu'n denantiaid preifat i fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a chyfleus.
ae'r gwasanaeth ar gyfer pobl sydd yn byw yng Nghymru, dros 60 oed, a yn berchen eu cartref eu hunain neu yn rhentu'n breifat.

Sut y gallwn eich helpu:

- Cynnal gwiriad Cartrefi Iach rhad ac am ddim
- Cynghori ar opsiynau i drwsio, cynnal a chadw neu addasu eich cartref
- Helpu i ganfod ffynonellau cyllid ar gyfer unrhyw waith sydd ei angen
- Cynghori a helpu i wneud cais am y budd-daliadau y mae gennych hawl iddynt
- Eich helpu i ganfod contractwr neu adeiladwyr lleol a dibynadwy
- Eich cyfeirio at wasanaethau lleol eraill os oes angen
- Byddwn hyd yn oed yn ceisio canfod cyllid i chi os ydych angen gwaith trwsio neu waith i wella effeithiolrwydd ynni neu gynhesrwydd eich cartref.

### Gwasanaeth Atal Cwympo

Asesu a chynghori ar atal llithro, baglu a chwympo yn y cartref.

### Ymdopi'n Well

Mae Ymdopi'n Well yn wasanaeth rhad ac am ddim sy'n ymweld â chartrefi i gynnig cyngor a help ymarferol ar gyfer pobl dros 50 oed. Mae ar gyfer rhai sydd wedi colli eu golwg neu glyw, ar gyfer pobl Fyddar, pobl sy'n byw gyda dementia a phobl sydd wedi goroesi strôc.

### Mamwlad

Mae'n wasanaeth i helpu pobl dros 50 oed yn y gymuned ffermio - p'un ai'n ffermwyr, gweithwyr fferm neu wedi ymddeol o ffermio.

**August / Awst 2026**


**Tel: 01686 620760**
**Email: enquiries@crpowys.co.uk**
**Website: www.crpowys.co.uk**